Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Economic and Social Research Council

# Defnyddio'r Arolwg o Brofiad Academaidd Myfyrwyr (SAES) i edrych ar dueddiadau cyfranogiad mewn addysg uwch ymhlith myfyrwyr sydd â'u domisil yng Nghymru

## Crynodeb

Dyma gyfle cyffrous i wneud lleoliad gwaith am dâl ar brosiect ar ran Llywodraeth Cymru. Ffocws y prosiect fydd ddeall profiad myfyrwyr ym maes addysg uwch. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gweithio'n agos gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid i ymchwilio i amrywiaeth o ganlyniadau ymchwil a'u datblygu, a chefnogi Llywodraeth Cymru yn ei phroses ymchwil. Bydd yr ymgeisydd yn cael y cyfle i ddefnyddio sgiliau ymchwil mewn amgylchedd polisi, i ddatblygu mwy ar ei sgiliau cyffredinol (megis ysgrifennu adroddiadau a gwneud cyflwyniadau) a chyfoethogi ei wybodaeth am ymchwil y tu hwnt i faes academaidd.

## Y sefydliad

Llywodraeth Cymru yw'r Llywodraeth ddatganoledig ar gyfer Cymru sy'n gyfrifol am yr economi, addysg, iechyd a'r GIG yng Nghymru, busnes, gwasanaethau cyhoeddus ac amgylchedd Cymru.

Yn benodol, bydd yr interniaeth wedi'i lleoli o fewn y gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi (KAS). Mae KAS yn casglu, dadansoddi a chyflwyno ymchwil a data ar gyfer llunwyr polisïau a'r cyhoedd yn unol â safonau proffesiynol. Maent yn cynnig tystiolaeth annibynnol i ddeall, datblygu, gweithredu, monitro a gwerthuso polisïau'r llywodraeth. Mae KAS hefyd yn cefnogi cydweithwyr polisi i ddatblygu, gweithredu a chyflawni polisïau.

## Yr Interniaeth

Bydd yr interniaeth wedi'i lleoli yn y gangen ymchwil Addysg a Sgiliau Ôl-16, sy'n darparu cymorth dadansoddol ar gyfer addysg drydyddol, maes polisi proffil uchel sy'n newid yn gyflym. Bydd yr interniaeth yn gyfle cyffrous i weithio wrth galon Llywodraeth Cymru. Bydd yr intern yn gweithio'n agos gyda swyddogion polisi ac ymchwilwyr, a bydd cyfle iddynt roi eu sgiliau ymchwil ar waith mewn amgylchedd polisi, i ddatblygu mwy ar eu sgiliau cyffredinol (megis ysgrifennu adroddiadau a gwneud cyflwyniadau) a chyfoethogi eu gwybodaeth am bolisi.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn elwa ar gyfleoedd datblygu a gynigir yn ganolog gan Lywodraeth Cymru, a gall hyn gynnwys mentora, cysgodi, cefnogaeth gan gymheiriaid a hyfforddiant.

Bydd interniaid yn elwa ar y profiad o gydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru:

- Meithrin gwell dealltwriaeth o'r byd y tu allan i'r byd academaidd a chynyddu cyflogadwyedd, gan ddefnyddio eu gwybodaeth a'u sgiliau i gyfrannu at waith Llywodraeth Cymru.
- Gall cydweithwyr yr intern yn Llywodraeth Cymru gynnig goleuni pellach ar ei brosiect PhD a all gyfrannu at lwyddiant y thesis, yn ogystal â chyfleoedd rhwydweithio o fewn y maes polisi sy'n gysylltiedig â'r maes ymchwil
- Sgiliau a gwybodaeth trosglwyddadwy
- Sgiliau rheoli amser
- Sgiliau ysgrifennu adroddiadau

## Y Prosiect

Cefndir

Mae her sylweddol yn ein hwynebu o ran cyfranogiad mewn addysg ôl-16 yng Nghymru. Dysgwyr sydd â'u domisil yng Nghymru sydd â'r gyfradd isaf o blith gwledydd y DU o gymryd rhan mewn addysg uwch, ac mae cyfraddau cyfranogiad mewn addysg uwch yn is ar gyfer yr ardaloedd mwyaf difreintiedig o'i gymharu ag ardaloedd mwy cyfoethog yng Nghymru. Effeithiodd Covid-19 ar yr ymddygiad cofrestru ar gyfer addysg uwch, ac roedd cyfraddau mynediad uwch na'r disgwyl yn ystod y pandemig.

Mae'r prosiect hwn yn rhan o ffrwd waith sy'n canolbwyntio ar ddeall y tueddiadau cyfranogiad hyn yn fwy manwl – gan ganolbwyntio'n benodol ar ddeall profiad myfyrwyr ym maes addysg uwch. Bydd y prosiect yn llywio'r ffrwd waith hon yn ogystal â llywio gweithgarwch gwerthuso parhaus i ddeall canlyniadau ac effeithiau Diwygiadau Diamond mewn addysg uwch yng Nghymru.

Bydd y prosiect hwn yn defnyddio'r Arolwg o Brofiad Academaidd Myfyrwyr i ddarparu gwell dealltwriaeth o newidiadau ym mhrofiad myfyrwyr mewn addysg uwch dros amser, i ddysgwyr sy'n hanu o Gymru. Mae'r arolwg yn cael ei ailadrodd bob blwyddyn sy'n cynnig adnodd unigryw i asesu newidiadau dros amser. Bydd yr interniaeth yn canolbwyntio'n fras ar newidiadau i lesiant, y canfyddiad o werth, a chadw myfyrwyr, ac yn anelu at ddarparu mewnwelediadau sy'n gysylltiedig ag ehangu cyfranogiad a grwpiau â nodweddion gwarchodedig Gall y prosiect gynnwys cymariaethau â gwledydd eraill y Deyrnas Unedig. O fewn y maes pwnc eang hwn bydd yr person yn cael cyfle i lywio union ffocws y gwaith yn ôl eu diddordebau penodol ei hunan.

## Canlyniadau disgwyliedig y prosiect:

- Adroddiad technegol byr a fyddai'n cynnwys y canlynol:
    - Adolygiad o'r hyn y mae'r data ei ddweud wrthym
    - Trafodaeth o'r dewisiadau methodolegol a wnaed a'r effaith ar y canfyddiadau

    - Argymhellion ar gyfer ymchwil a/neu bolisi yn y dyfodol yn seiliedig ar ganfyddiadau
- Cystrawen anodedig ar gyfer gwneud gwaith dadansoddi, gan gynnwys unrhyw waith o ran paratoi data (ee cofnodi newidynnau)
- Cyflwyniad i gydweithwyr dadansoddol a swyddogion polisi ar y canfyddiadau
- Sesiwn hyfforddi gyda thimau priodol i rannu canfyddiadau ac i ddangos sut i ailadrodd y gwaith yn y dyfodol gyda datganiadau data newydd
- Crynodeb ar gyfer cynhadledd

## Cyfrifoldebau a gofynion yr interniaeth

Bydd yr interniaeth yn para am gyfnod o 5 mis, gyda'r opsiwn o estyniad, ac yn ystod y cyfnod hwn bydd y sefydliad cartref yn rhewi prosiect PhD y myfyriwr. Bydd y myfyriwr yn cael ei dalu'r hyn sy'n cyfateb i'w dâl (stipend) yn ystod ei interniaeth. Yn ogystal â gwyliau blynyddol, gellir trefnu amser ar gyfer ymrwymiadau PhD drwy drafod gyda'r rheolwyr llinell, e.e. cyfarfodydd grwpiau ymchwil a chyflwyniadau cynhadledd. Anogir ceisiadau gan fyfyrwyr rhan-amser.

Rhagwelir y bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gweithio mewn ffordd hybrid rhwng adref ac un o swyddfeydd Llywodraeth Cymru yn ystod ei interniaeth. Gall hyn newid yn ddibynnol ar bolisi Llywodraeth Cymru. Bydd unrhyw newidiadau i drefniadau gweithio yn cael eu trafod gydag ymgeiswyr llwyddiannus.

Bydd yr interniaeth yn para am gyfnod o 5 mis amser llawn neu'r hyn sy'n cyfateb yn rhan-amser. Ar gyfer myfyrwyr sydd wedi'u cofrestru yn rhan-amser, mae'r interniaeth hon ar gael yn rhan-amser dros gyfnod hwy (dim llai na thri diwrnod yr wythnos waith), i'w negodi rhwng Llywodraeth Cymru a'r ymgeisydd llwyddiannus. Os hoffech gael eich ystyried ar sail ran-amser, nodwch eich dewis oriau gwaith ar y ffurflen gais.

## Manylion am y math o fyfyriwr

### Rhaid i'r myfyriwr feddu ar y canlynol:

- Profiad o weithio gyda data arolygon
- Sgiliau dadansoddi data cryf gan gynnwys:
    - Profiad o drin/addasu data, gan ddefnyddio meddalwedd ystadegol
    - Gallu i gynhyrchu traws-dablau ac ymgymryd â modelu aml-lefel
- Gallu i gynhyrchu siartiau wedi'u cynllunio'n dda
- Y gallu i greu dogfennau cryno sydd wedi'u hysgrifennu'n dda, gan gyflwyno deunydd cymhleth mewn ffurf hygyrch.

## Dyddiad dechrau'r interniaeth

Medi 2025 (union ddyddiad i'w drafod). Efallai y bydd rhywfaint o hyblygrwydd yn dibynnu ar amgylchiadau unigol.

## Cyllid a chostau

Gellir talu costau teithio a llety rhesymol i fyfyrwyr nad ydynt wedi'u lleoli yng Nghaerdydd fel arfer. Dylai ceisiadau fod yn gyson â chanllawiau YGGCC. Ni fydd ceisiadau gan fyfyrwyr sydd angen cyllid ychwanegol ar gyfer teithio a llety yn cael eu trin yn llai ffafriol. Os oes gennych unrhyw ymholiadau am hyn, cysylltwch â Carole Baker yn y YGGCC ar: enquiries@wgsss.ac.uk

## Ymholiadau

Dylid anfon unrhyw ymholiadau sy'n ymwneud â'r swydd neu'r broses ymgeisio at Jessica Steventon, pennaeth y tîm ymchwil ôl-16, Jessica.steventon@llyw.cymru